WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ceredigion

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 675A2011



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron £5.5 biliwn o'r arian hwn ei roi i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud y gorau o arian cyhoeddus drwy hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol sydd wedi'u rheoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Non Jenkins, Jeremy Evans a chydweithwyr o dan arweiniad Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae'r Cyngor yn dechrau rhoi ei raglen drawsnewid uchelgeisiol ar waith, ond mae angen atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio, darparu, monitro ac adrodd o hyd mewn rhai meysydd allweddol ac mae perfformiad a chanlyniadau'n parhau'n amrywiol 9

Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor yn dechrau rhoi ei raglen drawsnewid ar waith ond bu'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl mewn rhai meysydd 10

Mae'r gwelliant y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni mewn meysydd â blaenoriaeth yn amrywiol 20

Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â gwendidau mewn gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi pobl mewn angen ond, o ganlyniad i broblemau'n ymwneud ag adnoddau, nid yw'r gwelliannau bwriadedig wedi'u cyflawni mewn rhai meysydd 20

Ar y cyfan, mae perfformiad yn gwella ym maes addysg gan fod y tîm rheoli gwasanaethau cadarn yn canolbwyntio ar y pethau cywir i helpu pobl i ddatblygu 21

Mae llawer o flaenoriaethau amgylcheddol yn cael eu cyflawni, ac mae cynnydd wedi'i wneud o ran adfywio Aberystwyth, er bod hyn wedi cymryd mwy o amser nag yr oedd y Cyngor yn ei fwriadu 22

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen proses gorfforaethol fwy cyson a chadarn o werthuso perfformiad a chanlyniadau a chyflwyno adroddiadau arnynt er mwyn canolbwyntio'n well ar y meysydd sydd angen eu gwella fwyaf a chyflawni ei holl flaenoriaethau 24

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 28

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Geredigion a Chyngor Sir Ceredigion 29

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ceredigion 31

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion 33

**Atodiad 5**
Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella 34

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae tair prif adran i'r adroddiad sy'n cwmpasu'r gwaith o gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant gan Gyngor Ceredigion (y Cyngor).

2 Ar y cyfan, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad fod y Cyngor yn dechrau rhoi ei raglen drawsnewid uchelgeisiol ar waith, ond bod angen atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio, darparu, monitro ac adrodd o hyd mewn rhai meysydd allweddol a bod perfformiad a chanlyniadau'n parhau'n amrywiol.

3 Canfuwyd bod cynlluniau a threfniadau'r Cyngor yn dechrau rhoi ei raglen drawsnewid ar waith, ond bu'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl mewn rhai meysydd. Nodwyd hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ymateb yn dda i'n cynigion ar gyfer gwella yn yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ac mae wedi gwneud cynnydd drwy ei raglen drawsnewid;
- mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau llywodraethu;
- mae gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer rheoli ei arian, ond dim ond yn ddiweddar y lluniwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig cynhwysfawr;
- mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi trefniadau newydd ar waith o ran adnoddau dynol ond, oherwydd anawsterau o ran recriwtio ac absenoldeb oherwydd salwch mewn gwasanaethau cymdeithasol, effeithiwyd ar allu'r gwasanaeth i gefnogi a chyflawni rhai o'r gwelliannau bwriadedig;
- mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio technoleg yn effeithiol ac mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud;
- mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth ac mae'n datblygu trefniadau yn hyn o beth;
- mae ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynyddu; ac
- mae'r Cyngor ar y trywydd cywir i gyflawni ei ddyletswyddau o ran Cydraddoldeb ac mae'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn weithredol ond mae ei gynnydd yn erbyn ei ddyletswyddau Cynllun Iaith Gymraeg yn amrywiol.

4 Canfuwyd hefyd fod y gwelliant y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni mewn meysydd â blaenoriaeth yn amrywiol. Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â gwendidau mewn gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi pobl mewn angen ond, o ganlyniad i broblemau'n ymwneud ag adnoddau, nid yw'r gwelliannau bwriadedig wedi'u cyflawni mewn rhai meysydd;
- ar y cyfan, mae perfformiad yn gwella ym maes addysg gan fod y tîm rheoli gwasanaethau cadarn yn canolbwyntio ar y pethau cywir i helpu pobl i ddatblygu; ac

- mae llawer o flaenoriaethau amgylcheddol yn cael eu cyflawni, ac mae cynnydd wedi'i wneud o ran adfywio Aberystwyth, er bod hyn wedi cymryd mwy o amser nag yr oedd y Cyngor yn ei fwriadu.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn cydnabod bod angen proses gorfforaethol fwy cyson a chadarn o werthuso perfformiad a chanlyniadau a chyflwyno adroddiadau arnynt er mwyn canolbwyntio'n well ar y meysydd sydd angen eu gwella fwyaf a chyflawni ei holl flaenoriaethau.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

| Argymhelliad | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Cyngor gyhoeddi cymhariaeth o'i berfformiad ag awdurdodau gwella eraill yng Nghymru a chyrff cyhoeddus eraill fel sy'n ofynnol o dan adran 15(d)b(ii) o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'n diystyru'r angen i gynnal a gwella safonau gwasanaethau yng Ngheredigion, yn arbennig meysydd allweddol fel gwasanatthau cymdeithasol, am ei fod yn canolbwyntio ar drefniadau ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol. |
| **C2** | Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynllunio ar gyfer gwelliant mewn ffordd realistig gan ganolbwyntio ar ble y gall gael dylanwad a'r hyn y gall ddylanwadu arno a'r meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt fwyaf fel y gall gyflawni ei holl flaenoriaethau. |
| **C3** | Bydd angen i'r Cyngor weithio'n gyflym i gwblhau gwaith ei ffrydiau gwaith o ran egluro, llunio a blaenoriaethu ei amcanion strategol os yw ei raglen drawsnewid a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn mynd i gael dylanwad. |
| **C4** | Mae angen i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol o ran hunansicrwydd a gwerthuso. |
| **C5** | Dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu rydym wedi eu nodi yn ein hadroddiadau adborth ar yr astudiaeth thematig. |
| **C6** | Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â chanllawiau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i raddau helaethach o ran cyhoeddi ei asesiad o berfformiad. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

6 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar dudalen 2 ceir esboniad cryno o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella ei wasanaethau. O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Mae’r Cyngor yn dechrau rhoi ei raglen drawsnewid uchelgeisiol ar waith, ond mae angen atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio, darparu, monitro ac adrodd o hyd mewn rhai meysydd allweddol ac mae perfformiad a chanlyniadau’n parhau’n amrywiol

10 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau’r cyngor. Canolbwyntiodd ein gwaith ar y prif amcanion y mae’r Cyngor wedi’u pennu iddo’i hun. Mae’r adroddiad yn adeiladu ar adborth ac adroddiadau cynharach a roddwyd i’r Cyngor ac mae’r casgliadau yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a’r wybodaeth a rennir gennym ynghyd â chanfyddiadau o waith a wnaed eleni.

11 Mae ein casgliad cyffredinol yn adlewyrchu’r cynnydd da y mae’r Cyngor yn ei wneud o ran ei raglen drawsnewid i foderneiddio trefniadau’r Cyngor i gefnogi gwelliant i’w alluogi i weithredu’n fwy corfforaethol, effeithiol ac effeithlon ar draws ei holl wasanaethau ac adrannau.

12 Yr her i’r Cyngor yw sicrhau nad yw’n diystyru’r angen i barhau i wella safonau gwasanaethau yng Ngheredigion, yn arbennig mewn rhai meysydd allweddol, am ei fod yn canolbwyntio ar drefniadau ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol. Yn arbennig, mae’r arwyddion o ddirywiad mewn rhai meysydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn atgoffa’r Cyngor fod angen cydbwyso ei ymdrechion rhwng diwallu anghenion presennol a pharatoi am ddyfodol gwell.

# Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor yn dechrau rhoi ei raglen drawsnewid ar waith ond bu'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl mewn rhai meysydd

## Mae'r Cyngor wedi ymateb yn dda i'n cynigion ar gyfer gwella yn yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ac mae wedi gwneud cynnydd drwy ei raglen drawsnewid

13 Ym mis Awst 2010 daeth Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod y Cyngor mewn sefyllfa fresgus a bod angen iddo newid y ffordd y mae'n rheoli ac yn cyflawni gwelliant yn ystod y chwe mis nesaf os yw am wella gyda llai o adnoddau.

14 Ym mis Ionawr 2011 cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyntaf a ddangosodd fod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r negeseuon a'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ei Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol. Nododd fod y Cyngor eisoes wedi gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y bu'n gweithio yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'i fod, yn sgîl adroddiad yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, wedi cynyddu a chyflymu'r newid yn sylweddol. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi trefniadau cadarnach ar waith i reoli'r broses o drawsnewid tuag at weithredu fel Cyngor mwy unedig, modern a chorfforaethol.

15 Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr i'r Cyngor yn diweddaru ei Asesiad Corfforaethol, gan wneud sylwadau ar gynnydd a datblygiadau ers ei adroddiadau blaenorol. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn fodlon bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur a'i fod yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Daethpwyd i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y ffaith fod y Cyngor wedi cyhoeddi ei Amcanion newydd ar gyfer Cynllun Gwella 2011-12 a oedd yn nodi'r canlynol yn glir: y gwelliannau y gall dinasyddion eu disgwyl ar gyfer pob amcan; sut mae'r Cyngor yn diffinio llwyddiant; pa mor dda yw ei wasanaethau ar hyn o bryd; sut mae'n bwriadu gwneud newidiadau; a sut y bydd yn monitro cynnydd.

16 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod Cynllun Gwella eleni'n wella na chynllun y llynedd; mae ei ddiwyg yn well ac mae'n haws ei ddarllen. Awgrymodd rai meysydd eraill i'w gwella ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gynnwys cyfeiriadau gwell at gynlluniau gwahanol, mesurau mwy cynhwysfawr ar gyfer pob amcan gwella, a phroses well o bennu targedau.

17 Yn ei lythyr yn diweddaru'r Asesiad Corfforaethol, cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi dechrau rhaglen drawsnewid ac effeithlonrwydd sydd â'r nod o newid y ffordd y mae'n trefnu ei swyddogaethau ac yn darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith newid i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen erbyn mis Ebrill 2014. Nododd y llythyr diweddaru fod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd ym mhob maes y nodwyd bod angen eu gwella yn Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol 2010. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys cynnydd o ran atgyfernthu trefniadau cynllunio corfforaethol y Cyngor, fframwaith y rhaglen drawsnewid, adnoddau dynol, TGCh, cynlluniau ariannol tymor canolig, a sefydlu trefniadau ar gyfer gwerthuso perfformiad.

18 At hynny, daeth y Diweddariad i'r Asesiad Corfforaethol i'r casgliad fod y Cyngor yn llwyr ymwybodol o'r heriau ariannol sy'n ei wynebu yn y dyfodol a'i fod wedi datblygu strategaeth arbedion yn wyneb y gostyngiad disgwyliedig o ran cyllid. Nododd y Diweddariad i'r Asesiad Corfforaethol dri maes arall i'w gwella. Roedd dau yn ymwneud ag egluro rôl aelodau a swyddogion o fewn y trefniadau newydd, ac roedd un yn ymwneud â dilysu data a chywirdeb gwybodaeth.

19 Nodir crynodeb o gynnydd y Cyngor mewn ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella yn Atodiad 5 i'r adroddiad hwn.

20 Er mwyn helpu i ddangos sut mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwelliant ac yn gwneud trefniadau yn hyn o beth, adolygwyd asesiad y Cyngor o b'un a gyflawnodd yr Amcanion Gwella a bennodd iddo'i hun yn 2010-11, sef i drawsnewid ei wasanaethau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol i'r dinasyddion. Canfu ein hasesiad fod y Cyngor wedi dechrau gwneud cynnydd mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r hyn y nododd yn byddai'n ei wneud drwy ei raglen drawsnewid dair blynedd, a'i fod yn ymrwymedig i weithio gyda'i bartneriaid i wneud hyn. Serch hynny, bu'r cynnydd yn arafach nag yr oedd y Cyngor wedi ei ddisgwyl mewn rhai meysydd, gan gynnwys llawer o'i ffrydiau gwaith a grwpiau thematig, yn arbennig o ran gwella trefniadau cyfathrebu mewnol yn sgîl problemau yn ymwneud â gallu ac adnoddau.

21 Fel rhan o'i raglen drawsnewid mae'r Cyngor wedi mabwysiadu datganiad gweledigaeth newydd: 'Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n cefnogi economi gadarn gan hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau.' Mae'r datganiad hwn, a lywiwyd gan safbwyntiau dinasyddion, yn adlewyrchu dull mwy strategol a chorfforaethol y Cyngor o wella gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r dull hwn i lywio ei gynlluniau a'i flaenoriaethau, ei drefniadau rheoli a llywodraethu, ei gynlluniau i gyflawni effeithlonrwydd, a'i drefniadau o ran cydweithredu â'i bartneriaid mewn llywodraeth leol ac yn fwy cyffredinol yn y sector cyhoeddus. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl i'r cynlluniau hyn ei helpu i ymateb i'r sefyllfa ariannol anodd ac i newidiadau o ran gofynion deddfwriaethol. Fodd bynnag, i gyflawni hyn bydd angen iddo fynd ati i gwblhau'r gwaith sy'n mynd rhagddo i egluro, llunio a blaenoriaethu ei amcanion strategol.

22 Fel rhan o'i raglen drawsnewid mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud rhai newidiadau i'r strwythur rheoli. Mae'r trefniant newydd dewisol sy'n cael ei hyrwyddo gan Grŵp y Strategaeth Drawsnewid a'r Prif Weithredwr yn ymwneud â strwythur rheoli sy'n cyd-fynd â'r Weledigaeth.

23 Bu'r Cyngor yn llwyddiannus iawn o ran rhesymoli ei adeiladau, ac mae nifer o enghreifftiau o gynlluniau a ddylai gyfrannu at arbedion a gwasanaethau mwy effeithlon. Enghraifft o hyn yw penderfyniad y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau i gyd-leoli yng Nghanolfan Rheidol, swyddfa newydd y Cyngor yn Aberystwyth.

24 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd o ran y rhaglen drawsnewid a chanolbwyntio ar effaith a chanlyniadau'r rhaglen, a sut mae'r Cyngor yn mesur, yn monitro ac yn gwerthuso p'un a yw'r canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni, yn ein hasesiadau yn y dyfodol.

25 At hynny, yn ei Hadolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad y Cyngor ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2010-11, nododd AGGCC rai cryfderau a gwelliannau yn ymwneud â pherfformiad y Cyngor o ran trawsnewid gwasanaethau:

‘Yr hyn y mae’r Awdurdod yn ei wneud yn dda:

- Mae rhaglen trawsnewid ac effeithlonrwydd bellach ar waith i wella swyddogaethau a’r gwasanaethau a ddarperir.

Yr hyn y mae angen i’r Awdurdod Lleol ei ddatblygu/gwella:

- Darparu’r fframwaith newid sy’n ategu’r rhaglen drawsnewid.
- Parhau i feithrin sgiliau a gallu ar gyfer rheoli a chyflawni newid.’[1]

26 Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y cryfderau a’r meysydd i’w datblygu yn Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol AGGCC sydd ar gael ar wefan AGGCC: http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/lareviews/2011/5530105/?skip=1&lang=cy

## Mae’r Cyngor yn adolygu ei drefniadau llywodraethu

27 Roedd ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ar gyfer 2010 yn nodi y dylai’r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau arwain, pennu cyfeiriad, llywodraethu a chraffu corfforaethol er mwyn sicrhau y gall wneud y penderfyniadau angenrheidiol.

28 Cyflwynodd llythyr diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011 y ddau gynnig canlynol ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu:

- er mwyn cefnogi’r gwaith o lywio newid diwylliannol, dylid adolygu rolau o fewn y Cabinet drwy asesu a yw trefniadau portffolio sydd wedi’u cysoni â chyfarwyddiaethau yn cefnogi newid neu’n debygol o’i rwystro; a
- dylid adolygu trefniadaeth y swyddogaeth Graffu gyda’r nod o: leihau nifer y pwyllgorau; monitro cyfeiriad, cynnydd ac effaith y rhaglen drawsnewid a chraffu arnynt; a sefydlu dull o ymdrin â’r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd drawsbynciol.

29 Ers hynny, mae’r Cyngor wedi bod yn adolygu ei gyfansoddiad a’i drefniadau craffu i fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011, gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau craffu a chefnogi ei raglen drawsnewid. Mae’r Cyngor yn gobeithio treialu trefniadau craffu newydd cyn etholiadau llywodraeth leol eleni ond, oherwydd terfynau amser, efallai na fydd hyn yn bosibl. Nid yw trefniadau craffu ar y cyd, a fyddai’n cefnogi ac yn herio prosiectau cydweithredol ac yn sicrhau trefniadau atebolrwydd clir, wedi’u hystyried eto.

30 Yn ei Hadolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad y Cyngor ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2010-11, nododd AGGCC fod angen i’r Cyngor ddatblygu neu wella rhai materion allweddol mewn perthynas â’i drefniadau llywodraethu. Ymysg y rhain mae datblygu rôl rheoli perfformiad y pwyllgor craffu a’r gwaith o graffu ac arsylwi ar waith rheng flaen aelodau.

1 *Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2010/2011* - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 31 Hydref 2011.

31 Mae Gwerthusiad Blynyddol AGGCC hefyd yn nodi'r canlynol: 'Y llynedd, nododd AGGCC fod angen sicrhau bod cynlluniau gwaith y pwyllgor craffu yn canolbwyntio'n fwy ar ddata perfformiad yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hwn yn parhau'n faes i'w wella.'

## Mae gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer rheoli ei arian, ond dim ond yn ddiweddar y lluniwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig cynhwysfawr

32 Nododd ein llythyr yn diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011 fod y Cyngor yn llwyr ymwybodol o'r heriau ariannol sy'n ei wynebu yn y dyfodol ac mae wedi datblygu strategaeth arbedion yn wyneb y gostyngiad disgwyliedig o ran cyllid. Mae'r Cyngor yn rheoli ei arian yn dda ac mae'n dangos arweinyddiaeth ariannol gadarn ac atebol. Nododd fod angen cyflawni arbedion gwerth £3 miliwn yn 2011-12, ac yn ystod y cyfnod o dair blynedd rhwng 2011-12 a 2014-15 y bydd angen gwneud iawn am ddiffyg o £10.4 miliwn.

33 Roedd y Cyngor eisoes wedi cyflwyno newidiadau i'r broses o bennu cyllideb fel ffordd o fynd i'r afael â'r trefniadau adrannol a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Ynghyd â'r trefniadau y mae'n eu datblygu o fewn ei raglen trawsnewid ac effeithlonrwydd, dylai'r newidiadau hyn ei alluogi i wneud penderfyniadau strategol mwy hyddysg ynghylch y defnydd o'r cyllid sydd ar gael iddo.

34 Ym mis Medi 2011 nododd y Cyngor y byddai'n cyflawni ei darged o ran arbedion ar gyfer 2011-12 ond y byddai'n debygol o orffen y flwyddyn ariannol, serch hynny, gyda gorwariant bach iawn o tua £60,000. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd gwasanaethau addysg, hamdden a diwylliant yn gweithredu o fewn y gyllideb, ac eithrio maes addysg barhaus lle y rhagwelir gorwariant o £250,000 o ganlyniad i ostyngiad yng ngwerth y contract a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Hyfforddiant Ceredigion. Fodd bynnag, mewn gwasanaethau cymdeithasol mae'r Cyngor yn amcangyfrif gorwariant mewn gwasanaethau anableddau dysgu, gwasanaethau teuluoedd a phlant, a gwasanaethau pobl hŷn. Caiff yr achosion hyn o orwario eu gwrthbwyso gan danwariant arfaethedig, yn bennaf yng ngwasanaethau cartrefi ac iechyd meddwl awdurdodau lleol.

35 Caiff strategaeth Ariannol Tymor Canolig dair blynedd ei llunio bob blwyddyn. Ar 15 Rhagfyr 2011, cymeradwyodd y Cyngor ddogfen sengl yn dwyn ynghyd ei ragdybiaethau ariannol, safonau'r gwasanaethau a ddarperir, anghenion demograffig a chynlluniau'r gweithlu. Bydd y ddogfen hon yn ei alluogi i ystyried y trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli ei adnoddau i gyflawni ei amcanion. Mae gwybodaeth ariannol yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau, ac mae'r broses o wneud penderfyniadau ariannol yn seiliedig ar wybodaeth ariannol gynhwysfawr. Mae'r aelodau yn adolygu perfformiad ariannol y Cyngor yn rheolaidd.

36 Mae'r dreth gyngor gyfartalog a delir ar gyfer band D yng Ngheredigion wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru ers sawl blwyddyn, a hynny o tua £30 fesul cartref. Yn 2011-12, £1,132.55 oedd y swm o gymharu â £1,161.96 ar gyfartaledd ledled Cymru, a oedd yn golygu mai Ceredigion oedd yr wythfed isaf o blith y 22 o awdurdodau yng Nghymru. Yng Ngheredigion, cynyddodd y dreth gyngor band D 21.5 y cant dros y pum mlynedd o gymharu â chynnydd cyfartalog o 20.8 y cant ledled Cymru.

37 Er bod lefelau'r dreth gyngor yn isel yng Ngheredigion fel arfer, mae'r cyfraddau casglu ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer 2010-11, casglodd y Cyngor 96.8 y cant o'r dreth gyngor o gymharu â chyfradd adennill gyfartalog o 96.6 y cant yng Nghymru.

38 Cyflwynodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2011, yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion o ran cyflwyno adroddiadau yn ymwneud â'i berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau, er bod rhai materion a godwyd yn yr archwiliad wedi'u nodi. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

39 Daeth ein gwaith archwilio ar drefniadau rheoli'r Cyngor mewn perthynas â budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor i'r casgliad fod risg isel y bydd y gwasanaeth yn methu mewn perthynas â threfniadau'r Cyngor i weinyddu, sicrhau a rhoi mynediad i gwsmeriaid i'r budd-daliadau hynny. Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn cyfrannu tua £0.5 miliwn tuag at y gost o ddarparu'r gwasanaeth. Yn 2012, cynigiwn gynnal adolygiad pellach o wasanaeth budd-dal tai y Cyngor a gwneud gwaith dilynol ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran ein gwaith ar ordaliadau tai a threth gyngor.

40 Nododd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 fod angen i'r Cyngor wneud y canlynol: 'Gweithredu ei gynllun ariannol tymor canolig er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn ffordd systematig a gynllunnir.' Hefyd, nododd AGGCC fod: 'Cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn nodi y bydd yr hinsawdd ariannol anodd gyfredol yn y sector cyhoeddus yn parhau'n her, yn arbennig o ystyried y cynnydd demograffig ymysg pobl 65 oed a throsodd yng Ngheredigion. Ceir ymrwymiad corfforaethol cryf i gyflawni effeithlonrwydd, cynyddu cynhyrchiant, gwella diwylliant a chyflawni arbedion y gellir eu troi'n arian parod o ganlyniad i'r ffaith fod gwasanaethau presennol yn rhy gostus ac nad yw'r gwariant cyfredol yn gynaliadwy. Mae'r tîm rheoli corfforaethol yn ceisio mantoli'r gyllideb erbyn 2013, a bydd angen cyflawni ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r gorwariant cyfredol o £1.1 miliwn (mewn gwasanaethau cymdeithasol) i gyflawni hyn.'

41 Mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi trefniadau newydd ar waith o ran adnoddau dynol ond, oherwydd anawsterau o ran recriwtio ac absenoldeb oherwydd salwch mewn gwasanaethau cymdeithasol, effeithiwyd ar allu'r gwasanaeth i gefnogi a chyflawni rhai o'r gwelliannau bwriadedig. Yn ein Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011, nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud gwaith i atgyfnerthu trefniadau adnoddau dynol corfforaethol ac yn ddiweddar wedi penodi

Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol yn fewnol. Roedd y Cyngor wedi cynnwys nodyn yn ymwneud â'r gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud dros y chwech i 12 mis diwethaf, a chynhaliwyd asesiad sylfaenol o'r trefniadau adnoddau dynol presennol ar y cyd â'r pennaeth gwasanaeth newydd er mwyn asesu datblygiad y trefniadau yn y dyfodol.

42 Yn seiliedig ar yr asesiad sylfaenol hwn rydym wedi dod i'r casgliad fod y Cyngor wedi dechrau'r broses o greu gwasanaeth adnoddau dynol mwy corfforaethol sydd â'r nod o sicrhau mwy o gysondeb o ran arferion adnoddau dynol na chynt. Bellach, ceir mwy o reolaeth dros benderfyniadau i recriwtio a chynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol effeithiol i'r awdurdod cyfan. Defnyddir y cynllun i helpu'r Cyngor i ailstrwythuro a gwneud arbedion, ond mae'r pwyslais o hyd ar reolwyr i sicrhau y cynhelir y sgiliau a'r adnoddau cywir i ddarparu gwasanaethau.

43 Mae angen gwneud mwy ar lefel strategol, er enghraifft, cyflwyno cynlluniau gweithlu mwy effeithiol, ac ar lefel weithredol, gan gynnwys gwella trefniadau ar gyfer monitro absenoldeb oherwydd salwch ac arferion rheoli presenoldeb. Mae'n siŵr mai'r ddwy her bwysicaf a mwyaf heriol sy'n weddill ar gyfer gwasanaeth adnoddau dynol y Cyngor yn ystod y flwyddyn nesaf yw:

- Cwblhau'r broses o werthuso swyddi ac ymdrin â'r goblygiadau ariannol tebygol. Nid yw'r Cyngor wedi gorffen ei drafodaethau i ddod i gytundeb statws sengl mewn perthynas â chyflog cyfartal. Erbyn mis Tachwedd 2011 roedd tua naw o bob 10 o swyddi'r Cyngor wedi'u gwerthuso. Disgwylir i'r 10 y cant arall gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2012. Drwy gwblhau'r broses o werthuso swyddi a dod i gytundeb ynglŷn â statws sengl, dylai'r Cyngor gael mwy o sicrwydd ynghylch costau cyflog yn y dyfodol.
- Gweithredu yng nghanol y mentrau trawsnewid amrywiol a allai gynnwys gwaith ailstrywthuro sylweddol yn y Cyngor ynghyd â meithrin cysylltiadau agosach â chynghorau eraill a'r GIG.

44 Yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad y Cyngor ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn 2010-11, nododd AGGCC fod angen i'r Cyngor ddatblygu neu wella nifer o faterion mewn perthynas â'i Adnoddau Dynol a'i weithlu. Yn eu plith mae'r canlynol:

- 'Cymorth adnoddau dynol corfforaethol i wasanaethau cymdeithasol i gyflawni cynlluniau er mwyn gwella'r broses o reoli salwch.
- Cynllunio'r gweithlu i leihau effeithiau absenoldeb staff. Mae hyn yn bryder sylweddol mewn nifer o feysydd.'

45 Mae Gwerthusiad Blynyddol AGGCC yn nodi bod angen mynd i'r afael â materion eraill sy'n ymwneud â'r gweithlu, yn arbennig rheoli salwch, er mwyn sicrhau buddiannau drwy wasanaethau rheng flaen mwy effeithiol ac arbedion ariannol. Mewn gwasanaethau plant, mae'n egluro, 'er ei fod wedi cytuno i gyflogi mwy o staff, fod anawsterau o ran recriwtio ac absenoldeb oherwydd salwch wedi effeithio ar y gwasanaeth o ran cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol'.

46 Ar gyfer gwasanaethau i oedolion, noda'r Gwerthusiad Blynyddol fod: 'Absenoldeb oherwydd salwch a swyddi gwag wedi effeithio ar wasanaethau i oedolion yn ystod yr arolygiad diweddar ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed.' Daeth y Gwerthusiad i'r casgliad fod angen i'r Cyngor sicrhau y gall y gwelliannau sydd wedi'u cynllunio mewn perthynas ag adnoddau dynol corfforaethol gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol yn fwy effeithiol o ran rheoli'r broses hon yn well. Mae hyn yn faes â blaenoriaeth i'r Cyngor o hyd.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio technoleg yn effeithiol ac mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud

47 Mae ein llythyr yn diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011 yn nodi bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio technoleg yn effeithiol a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i'r seilwaith technoleg a'r sylfeini technoleg, ac mae trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni effeithlonrwydd a thrawsnewid y gwasanaeth. Mae cysylltiadau diweddar y Cyngor â systemau TGCh Cyngor Sir Powys yn enghraifft o hyn. Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi diffinio sut y mae am ddarparu ei wasanaethau yn y dyfodol, er enghraifft, ei ymagwedd tuag at weithio o gartref neu 'ganoli' swyddogaethau cefn swyddfa. Mae angen gwneud penderfyniadau o'r fath er mwyn pennu cyd-destun ar gyfer datblygu'r seilwaith technoleg yn y dyfodol.

48 Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad o'r ffordd y mae'r Cyngor yn Rheoli Gwybodaeth. O ganlyniad i bwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen gwneud y mwyaf o'r wybodaeth a ddelir i ddarparu gwasanaethau o safon yn effeithiol a chynllunio ar eu cyfer. Byddwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn ein hadroddiad nesaf.

## Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth ac mae'n dabltygu trefniadau yn hyn o beth

49 Cynigiodd ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ar gyfer 2010 y dylai'r Cyngor:

- egluro ei strategaeth gorfforaethol ar gyfer datblygu gwasanaethau a rennir a dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau sydd â chysylltiad clir â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig; ac
- adeiladu ar ei adolygiadau diweddar er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd ei fframwaith partneriaeth.

50 Mae'r Cyngor yn cydweithredu â sawl sefydliad ar hyn o bryd ac mae wedi gwneud llawer o waith fel rhan o'i raglen drawsnewid i fapio partneriaethau cyfredol ac asesu partneriaethau ar gyfer y dyfodol ynghyd â threfniadau ar gyfer cydweithredu â chyrff eraill. O ystyried y galw cynyddol am effeithlonrwydd o ganlyniad i bwysau ariannol ar y sector cyhoeddus, nododd Grŵp Trawsnewid ac Effeithonrwydd y Cyngor ym mis Gorffennaf 2011, er y dylai'r Cyngor fanteisio ar bob cyfle i gydweithredu a'u hystyried, y dylid datblygu astudiaeth ddichonoldeb/achos busnes clir ar gyfer pob

achos a'i ystyried yn ei rhinwedd ei hun, ac y dylai unrhyw argymhellion o ran cydweithredu fod yn seiliedig ar welliannau clir neu effeithlonrwydd clir o ran costau a nodwyd mewn perthynas â gwasanaethau.

51 Gan ystyried barn Grŵp Trawsnewid ac Effeithlonrwydd y Cyngor, rydym wedi dechrau adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn datblygu gwasanaethau a rennir. Nod ein hadolygiad yw asesu'r ffordd y mae'r Cyngor yn datblygu astudiaethau dichonoldeb ac achosion busnes ar gyfer gwasanaethau a rennir i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Mae swyddogion wrthi'n trafod i ddod i gytundeb ar gylch gwaith yr adolygiad, ond bydd yn cynnwys asesiad o'r prosesau sy'n ategu penderfyniadau'r Cyngor ynghylch y trefniadau cydweithredu arfaethedig â Chyngor Sir Powys o ran swyddogaeth a rennir ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

52 At hynny, yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad y Cyngor ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2010-11, nododd AGGCC yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddo ei ddatblygu neu ei wella mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth:

'Yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud yn dda:

- Secondio staff allweddol i arwain datblygiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (gwasanaethau i oedolion).
- Canolbwyntio ar ddatblygu dadansoddiad gwell o anghenion - rhoddwyd canmoliaeth i'r gwaith a wnaed mewn perthynas â phobl hŷn yn adroddiad diweddar yr Asiantaeth Gwella Safonau Cymdeithasol.
- Ceir cynnydd o ran datblygu'r agenda foderneiddio ac integreiddio.

Yr hyn y mae angen i'r Awdurdod Lleol ei ddatblygu/gwella:

- Datblygu'r cynlluniau i sefydlu pwyntiau cyswllt integredig gwell mewn gwasanaethau i oedolion.
- Adolygu trefniadau rheoli amser ar gyfer consortiwm mabwysiadu gorllewin Cymru.
- Cyfrannu at waith grŵp craidd (amddiffyn plant) mewn ffordd amlasiantaethol.
- Hyrwyddo cyfleoedd bywyd i blant sy'n derbyn gofal drwy roi mwy o gymorth i wasanaethau addysg ac iechyd.
- Darparu strategaethau comisiynu diwygiedig er mwyn ategu penderfyniadau ariannol yn y dyfodol.
- Cyflawni canlyniadau eraill o'r cynlluniau mewn perthynas ag integreiddio gwasanaethau.

53 Mae Gwerthusiad Blynyddol AGGCC yn gwneud sylwadau penodol ar yr astudiaeth ddichonoldeb gyfredol sy'n cael ei chynnal ar y cyd rhwng cynghorau Ceredigion a Phowys mewn perthynas â chyfuno gwasanaethau cymdeithasol yn y ddau Gyngor. Mae'n nodi'r canlynol: Ar hyn o bryd mae astudiaeth ddichonoldeb, a noddir gan Pricewaterhouse Coopers, yn mynd rhagddi yn ymwneud â datblygu gwasanaeth gofal cymdeithasol yng nghanolbarth Cymru rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol cynghorau sir Ceredigion a Phowys. Byddai'r cynnig yn cynnwys cyfarwyddwr Ceredigion yn ymgymryd â'r rôl hon yn y ddau gyngor. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol a bydd AGGCC yn parhau i fonitro'r datblygiad hwn. Fel y

nodwyd yn gynharach, nid yw gallu'r gweithlu i ateb yr heriau sy'n gysylltiedig ag arwain a rheoli newid wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae'r Cyngor wedi nodi hyn hefyd ac mae angen iddo sicrhau y gellir nodi'r sgiliau a'r gallu angenrheidiol i gefnogi cynlluniau integreiddio yn y dyfodol gyda phartneriaid iechyd ac i ategu'r broses integreiddio arfaethedig gyda Chyngor Sir Powys.

## Mae ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynyddu

54 Daeth ein hastudiaeth ar ymgysylltu â'r cyhoedd i'r casgliad fod ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynyddu ond nad oes ganddo drefniadau cadarn i sicrhau trefniadau ymgysylltu effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd ei weithgarwch ymgysylltu. Er mwyn gwella hyn, argymhellwn y dylai'r Cyngor ddatblygu trefniadau mewnol clir i sicrhau bod digon o arweiniad a chymorth ar gael mewn perthynas â'r dulliau mwyaf priodol o sefydlu, casglu a dadansoddi data a gwybodaeth pan fydd gwasanaethau ac adrannau corfforaethol yn ymgysylltu â dinasyddion . Dylai'r trefniadau hyn sicrhau mwy o gysondeb a chadernid ym mhob rhan o weithgarwch ymgysylltu cyhoeddus y Cyngor ac o ran rhoi adborth ar ganlyniadau'r prosesau ymgysylltu.

55 Yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad y Cyngor ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2010-11, nododd AGGCC fod y Cyngor yn ymgysylltu'n dda â defnyddwyr gwasanaethau o ran adolygu a chynllunio gwasanaethau ond bod angen iddo ddatblygu a gwella ei ymwybyddiaeth o weithdrefnau cwyno ym mhob gwasanaeth.

56 Mae Crynodeb Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhoi dadansoddiad o'r holl gwynion a gyflwynwyd i'w swyddfa ac yr ymchwiliwyd iddynt mewn perthynas â phob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod 2010-11. Yn ei lythyr i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2011, nododd yr Ombwdsmon gynnydd yn nifer y cwynion a gafodd ei swyddfa am y Cyngor, gyda maes Cynllunio a Rheoli Adeiladau yn ysgogi'r nifer fwyaf o gwynion. Mae'n nodi bod gostyngiad yn nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt, er bod y ffigur yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer cynghorau. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn mynegi pryder ynghylch yr achosion o oedi wrth i'r Cyngor ymateb i'w ymholiadau, gydag un o ymatebion y Cyngor yn cymryd mwy na chwe wythnos oherwydd cymhlethdod y mater.

## Mae'r Cyngor ar y trywydd cywir i gyflawni ei ddyletswyddau o ran Cydraddoldeb ac mae'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn weithredol ond mae ei gynnydd yn erbyn ei ddyletswyddau Cynllun Iaith Gymraeg yn amrywiol

57 Mae'r Cyngor yn nodi ei fod yn cefnogi ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob rhan o'r sefydliad a'i fod yn llunio Cynllun Cydraddoldeb Sengl y disgwylir iddo fod ar waith erbyn mis Ebrill 2012 er mwyn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau statudol newydd sy'n cael eu cyflwyno o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

58 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn nodi bod gan y Cyngor y gallu i gasglu a chofnodi data ar sgiliau ieithyddol pob aelod o staff. Mae'r data'n awgrymu bod ganddo ddigon o siaradwyr Cymraeg i'w alluogi i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr ym mhob maes gwasanaeth. Mae'r Bwrdd wedi canmol y Cyngor am ddiweddaru contractau a roddir i berchnogion cartrefi gofal sy'n darparu gwasanaethau gofal preswyl ar ei ran. Bellach mae angen gwneud rhagor o waith i roi'r arfer hwn ar waith mewn meysydd gwasanaeth eraill. Mae'r Cyngor wedi cynnwys cwestiwn ar yr iaith Gymraeg yn ei offeryn sgrinio ar gyfer asesu effaith integredig, ond mae'r Bwrdd wedi codi pryderon ynghylch cadernid yr asesiad. Mae'r Cyngor wedi methu'n rheolaidd â chyflwyno ei adroddiad monitro blynyddol i'r Bwrdd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

# Mae'r gwelliant y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni mewn meysydd â blaenoriaeth yn amrywiol

59 Soniwyd uchod am amcan gwella'r Cyngor i drawsnewid ei wasanaethau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol i'r dinasyddion. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi pa mor dda y mae'r Cyngor yn gwella ei wasanaethau. Mae'n adlewyrchu barn AGGCC o ran gwasanaethau i oedolion a phlant, ac Estyn o ran addysg, ac yn nodi ein canfyddiadau ein hunain ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn y pedwar amcan gwella arall a bennodd y Cyngor iddo'i hun yn ystod 2010-11.

## Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â gwendidau mewn gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi pobl mewn angen ond, o ganlyniad i broblemau'n ymwneud ag adnoddau, nid yw'r gwelliannau bwriadedig wedi'u cyflawni mewn rhai meysydd

60 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dibynnu ar safbwyntiau, gwaith a gwerthusiadau a wnaed gan AGGCC yn ystod y flwyddyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cefnogi pobl mewn angen. Ceir crynodeb o werthusiadau AGGCC yn yr Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol mwyaf diweddar ar gyfer 2010-11 fel y nodwyd mewn llythyr i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ym mis Hydref 2011. Ceir crynodeb o'r prif gasgliadau o werthusiad AGGCC yn y paragraffau canlynol.

61 Ceir arwyddion ym maes gwasanaethau i oedolion fod y Cyngor wedi dechrau gwneud cynnydd o ran gwella ansawdd y gwaith o asesu a rheoli gofal. Hefyd, ceir tystiolaeth o welliant yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu trefniadau diogelu ar gyfer oedolion. Mae angen llywio a chynnal y cynnydd hwn a'i ategu gan drefniadau rheoli cadarn er mwyn cyflawni gwelliant parhaus yn yr hirdymor. Mae datblygu gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo annibyniaeth yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yng Ngheredigion. Bydd angen gweithio mewn ffordd integredig, yn arbennig gyda phartneriaid iechyd, fel rhan o'r ymateb hwn, a cheir tystiolaeth o gynnydd yn hyn o beth.

62 Mae'r diffyg gallu ac adnoddau a nodwyd mewn gwasanaethau plant wedi atal cynnydd pellach rhag cael ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Er y cytunwyd i gyflogi mwy o staff, mae anawsterau o ran recriwtio ac absenoldeb oherwydd salwch wedi effeithio ar y gwasanaeth o ran cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. Mae angen gweithio mewn ffordd fwy rhagweithiol i sicrhau na fydd gwasanaethau hanfodol fel asesu anghenion plant yn gostwng islaw'r safonau allweddol yn y dyfodol. Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran hyrwyddo cyfrifoldebau rhianta corfforaethol y Cyngor, ond nid yw'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal wedi adlewyrchu hyn yn ystod 2010-11. Mae'r Cyngor yn wynebu heriau o ran ei leoliad gwledig ond, o ystyried bod ganddo'r niferoedd isaf yng Nghymru o ran plant sy'n derbyn gofal, mae angen canolbwyntio'n fwy ar ddarparu gwasanaethau ychwanegol i gefnogi plant a phobl ifanc yn ei ofal.

63 Mae gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu heriau allweddol o ran cyflawni'r ymrwymiad corfforaethol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, gan gydnabod bod y gwasanaethau presennol yn rhy gostus ac nad yw'r lefel bresennol o wariant yn gynaliadwy. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u nodi

mewn cynllun ariannol tymor canolig erbyn hyn. Caiff rhywfaint o'r arbedion hyn ei gyflawni drwy gyflunio gwasanaethau a bydd gallu'r Cyngor i gyflawni'r newid hwn yn her y bydd angen rhagor o sgiliau ac adnoddau i'w hateb, yn arbennig ar lefel y rheolwyr. Mae datblygiad parhaus y trefniadau rheoli perfformiad, y trefniadau rheoli rhaglenni a'r gwaith comisiynu i ategu'r gwaith hwn yn feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach o hyd. Bydd y Cyngor am ddatblygu'r gallu angenrheidiol i gyflawni yn y meysydd hyn. At hynny, mae angen mynd i'r afael â materion eraill sy'n ymwneud â'r gweithlu, yn arbennig rheoli salwch, er mwyn sicrhau buddiannau drwy wasanaethau rheng flaen mwy effeithiol ac arbedion ariannol.

64 Mae dichonoldeb gwasanaeth gofal cymdeithasol ar gyfer canolbarth Cymru rhwng gwasanaethau cymdeithasol cynghorau sir Ceredigion a Phowys yn cael ei ystyried, a byddai'n cynnwys cyfarwyddwr Ceredigion yn ymgymryd â'r rôl hon yn y ddau gyngor. Bydd Ceredigion am sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar y sgiliau a'r gallu angenrheidiol i gefnogi cynlluniau integreiddio yn y dyfodol gyda phartneriaid iechyd ac i ategu'r broses integreiddio arfaethedig â Chyngor Sir Powys.

65 Yn ei Gwerthusiad Blynyddol, mae AGGCC yn nodi meysydd allweddol o gryfderau a meysydd i'w datblygu neu eu gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor, ac mae rhai o'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. I weld rhestr lawn o'r rhain, gweler adroddiad AGGCC ar ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol ar gyfer 2010-11 yn http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/lareviews/2011/5530105/?skip=1&lang=cy

66 Gwnaethom adolygu asesiad y Cyngor o b'un a gyflawnodd ei Amcan Gwella i wella'r ffyrdd y mae'n diogelu'r rheini sy'n agored i niwed yn y gymuned. Er bod y Cyngor wedi cymryd nifer o gamau i wella, canfuwyd nad yw'r camau hyn wedi arwain at berfformiad gwell mewn rhai meysydd oherwydd problemau o ran adnoddau, a cheir tystiolaeth o hyn yng Ngwerthusiad Blynyddol AGGCC fel y nodir uchod. Gallai hyn olygu nad yw defnyddwyr gwasanaethau yn gweld newid sylweddol, ac mae hyn yn peri pryder y bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael ag ef.

## Ar y cyfan, mae perfformiad yn gwella ym maes addysg gan fod y tîm rheoli gwasanaethau cadarn yn canolbwyntio ar y pethau cywir i helpu pobl i ddatblygu

67 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dibynnu ar waith ac arolygiadau a gynhaliwyd gan Estyn yn ystod y flwyddyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn helpu pobl i ddatblygu. Ni chynhaliodd Estyn arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae Estyn wedi rhoi crynodeb o berfformiad y Cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol, fel y nodir yn y paragraffau canlynol.

68 Pan ystyrir ystod o wybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion yng Ngheredigion yn dda yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3. Yng nghyfnod allweddol 4 mae perfformiad yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob mesur namyn un. Mae gormod o ysgolion uwchradd yn y chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru.

69 Yn 2010 rhagorodd Ceredigion ar ddau o dri meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim. Roedd hyn yn welliant ar y ddwy flwyddyn flaenorol pan ragorodd Ceredigion ar un o'r meincnodau hyn yn unig.

70 Mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwella. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn 2010 o ran nifer y gwaharddiadau tymor byr o ysgolion, ond roedd y gwelliant yn rhy araf ar gyfer gwaharddiadau hwy ac, yn sgîl hynny, Ceredigion sydd â'r nifer fwyaf o ddiwrnodau ysgol a gollwyd yn ôl gwybodaeth gyhoeddedig yng Nghymru.

71 Mae rheolwyr addysg wedi cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas â gweithdrefnau recriwtio staff diogel mewn lleoliadau addysg ac i sicrhau diogelwch mewn lleoliadau nas cynhelir.

72 Ceir rhagor o wybodaeth am addysg yng Ngheredigion ar wefan Estyn yn http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/adroddiadau-arolygu/?searchTitle=&searchType=All&localAuthority=88&searchPostcode=&searchDistance=10&submitted=1

73 Canfu ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o b'un a gyflawnodd ei Amcan Gwella i ddatblygu addysg yng Ngheredigion dystiolaeth o berfformiad gwell yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r Cyngor wedi gwneud ei ddarpariaeth i unigolion 14-19 oed yn fwy cynaliadwy drwy ddatblygu a sefydlu partneriaethau dysgu gan gynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr. Mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau anodd i gau ac uno ysgolion ac wedi rheoli'r prosesau hyn yn dda ac, o ganlyniad, mae wedi lleihau nifer y lleoedd gwag.

## Mae llawer o flaenoriaethau amgylcheddol yn cael eu cyflawni, ac mae cynnydd wedi'i wneud o ran adfywio Aberystwyth, er bod hyn wedi cymryd mwy o amser nag yr oedd y Cyngor yn ei fwriadu

74 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei nodau i wella amddiffynfeydd arfordirol a llifogydd yn Borth ac wedi parhau i adolygu ei ddewisiadau yn ôl ei fwriad mewn lleoedd eraill sydd mewn perygl o lifogydd yng Ngheredigion.

75 Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'i gamau gweithredu mewn perthynas â lleihau ei ôl-troed carbon. Mae wedi cyflawni gwelliannau o ran inswleiddio llofftydd ysgolion ac adeiladau presennol y Cyngor ac mae goleuadau mwy effeithlon, diffodd goleuadau stryd, a cherbydau mwy effeithlon yn helpu i leihau allyriadau ymhellach a sicrhau arbedion. Mae'r gweithgareddau hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau, ac felly hefyd ei waith gydag Eco-Sgolion, gan ddangos y ffordd i genedlaethau'r dyfodol.

76 Mae'r Cyngor wedi agor swyddfa newydd yng Nghanolfan Rheidol, Aberystwyth, sydd wedi ennill sawl gwobr o ran cynaliadwyedd ac wedi'i chymeradwyo yng Ngwobrau Adeiladau Dinesig y Flwyddyn Cymdeithas Prif Benseiri Awdurdodau Lleol 2010.

77 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno model casglu gwastraff newydd, gyda deunydd sych i'w ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol yn cael eu gwahanu. Mae'r model hwn wedi helpu'r Cyngor i leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi 37.43 y cant, drwy arallgyfeirio'r gwastraff i gael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio (neu driniaeth fiolegol arall).

78 Bu'r cynnydd o ran nod y Cyngor o adfywio Aberystwyth yn arafach nag yr oedd y Cyngor wedi ei fwriadu, ond mae sawl un o elfennau'r rhaglen wedi'u rhoi ar waith dros y misoedd diwethaf. Penododd y Cyngor ddatblygwyr i ailddatblygu Maes Parcio Mill Street, a fydd yn darparu mwy o leoedd parcio, cynnig cyfleoedd manwerthu o safon yng nghanol y dref a chyfleusterau Canolfan Ddydd newydd yn Aberystwyth. Er na lwyddodd y Cyngor i berswadio'r Loteri i ariannu Menter Treftadaeth Treflun, sicrhaodd ychydig dros £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r prosiect adfywio.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen proses gorfforaethol fwy cyson a chadarn o werthuso perfformiad a chanlyniadau a chyflwyno adroddiadau arnynt er mwyn canolbwyntio'n well ar y meysydd sydd angen eu gwella fwyaf a chyflawni ei holl flaenoriaethau

79 Yn awdurdodau lleol Cymru, mae hunanasesiadau corfforaethol a hunanasesiadau gwasanaethau yn elfennau allweddol o nifer o fframweithiau gwella a sicrwydd, megis Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, fframwaith arolygu Estyn ar gyfer addysg, y Fframwaith Adrodd Blynyddol ar gyfer Cynghorau ym maes gwasanaethau cymdeithasol, a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol awdurdodau lleol. Rhaid cynnal hunanasesiadau eraill wrth baratoi ar gyfer archwiliadau ac arolygiadau rheoleiddio ar gais Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

80 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried pa mor dda yw hunanwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad. Mae hunanwerthusiad cywir a chadarn yn hanfodol o ran gallu'r Cyngor i:

- gydnabod y cynnydd y mae'n ei wneud;
- cymryd camau adferol pan nad yw perfformiad yn cyrraedd lefelau disgwyliedig ac nad yw'r canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni; a
- chyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad i ddinasyddion lleol mewn ffordd gytbwys a gwerthusol.

81 Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol a'r gallu i sicrhau dull mwy cyson a chadarn o bennu heriau iddo'i hun a gwerthuso perfformiad a chanlyniadau mewn perthynas â'i holl flaenoriaethau a'i wasanaethau.

82 Mae adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn darparu adolygiad trylwyr ynghylch a oedd trefniadau priodol ar waith. Roedd yn disgrifio'r cynnydd a wnaed ganddo o ran gweithredu'r camau a nodwyd yn 2010-11, a nodwyd pum maes arall ar gyfer gwaith pellach yn 2011-12:

- atgyfnerthu trefniadau perfformiad;
- adolygu'r Cyfansoddiad;
- mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr;
- datblygu'r agenda drawsnewid; a
- pharhau i wneud cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth ariannol tymor canolig.

83 Er nad yw ei drefniadau hunanwerthuso ac adrodd corfforaethol wedi'u datblygu'n ddigonol, mae'r Cyngor yn ymateb yn dda i argymhellion allanol ar gyfer gwelliant gan reoleiddwyr ac eraill. Mae angen i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol o ran hunan-sicrwydd a gwerthuso.

84 Mae angen i Gynghorau gael gwybodaeth dda am berfformiad a threfniadau monitro a gwerthuso cadarn mewn perthynas â'r wybodaeth honno i asesu'r cynnydd y maent yn ei wneud. Mae gan y Cyngor wybodaeth dda am berfformiad yn seiliedig ar ystod o Ddangosyddion Perfformiad, a luniwyd yn gywir, y dylid eu cyfuno ag enghreifftiau ansoddol ac enghreifftiau o ganlyniadau lle nad yw'r Dangosyddion Perfformiad ar gael neu lle nad ydynt yn berthnasol. Mae diffyg mesurau amgen o'r fath yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor lunio barn gadarn ar ansawdd a pherfformiad mewn rhai meysydd.

85 Caiff adroddiadau chwarterol ar wybodaeth am berfformiad, gan gynnwys sefyllfa ariannol y Cyngor a'i berfformiad o ran absenoldeb oherwydd salwch, eu cyflwyno drwy'r Adolygiad Busnes chwarterol. Nid yw'r

trefniant monitro hwn yn cynnig her ddigon cadarn nac yn mynd i'r afael â pherfformiad cyffredinol yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor, megis yr Amcanion Gwella a'r Cytundebau Canlyniadau. Mae hyn yn rhwystro'r Cyngor rhag rheoli perfformiad yn effeithiol ym mhob gwasanaeth mewn ffordd gadarn a chyson, a chymryd camau i nodi a datrys meysydd sy'n peri problemau ar gam cynnar. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella ei drefniadau rheoli perfformiad ac mae'n cynllunio ar gyfer gwneud hynny. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau diwygiedig.

86 Nodir asesiad y Cyngor o'r cynnydd a wnaeth yn 2010-11 yn ei Gynllun Gwella - Perfformiad.Mae'r cynllun hwn yn cofnodi'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella dros y flwyddyn ddiwethaf. Ynghyd â disgrifio camau sydd wedi'u cwblhau, mae'r adroddiad yn cynnwys ystadegau ar berfformiad a gaiff eu nodi'n fwy cyflawn mewn atodiad.

87 Caiff ystadegau ar berfformiad eu cofnodi mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol a'r targedau a bennwyd, ynghyd â sylwadau i ddarparu cynnwys gwerthfawr ychwanegol. Fodd bynnag, ni fanteisiodd y Cyngor ar y cyfle i gyhoeddi cymariaethau o'i berfformiad â chynghorau eraill yng Nghymru na chyfartaleddau cenedlaethol, er ei fod yn cyflawni'r gwaith hwn at ei ddibenion mewnol ei hun. Darperir dolenni electronig i ddata perfformiad Cymru gyfan.

88 Mae'r adroddiadau a baratowyd yn deg ar y cyfan ond nid ydynt yn nodi popeth y mae'r Cyngor wedi'i wneud ac mae bylchau yn y wybodaeth sy'n ei gwneud yn anodd gwybod a yw wedi cyflawni'r hyn yr oedd yn ei fwriadu. Yn aml mae'r testun yn gryno iawn ac nid yw'n cynnwys llawer o wybodaeth am effeithiau camau'r Cyngor ar fywydau pobl.

89 Er ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawniadau cadarnhaol, mae'r adroddiad hefyd yn nodi meysydd lle bu'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl. Ond, gan nad yw'r adroddiad yn cwmpasu popeth, gyda gwybodaeth gadarnhaol a negyddol yn cael ei hepgor o bryd i'w gilydd, mae'n anodd i'r cyhoedd wybod a yw'r adroddiad yn gytbwys.

90 Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrech i wella ei drefniadau ar gyfer gwerthuso perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno i'r cyhoedd. Ond, er gwaethaf ei ddull agored o gyflwyno adroddiadau, nid yw proses hunanwerthuso'r Cyngor yn gydlynol nac yn cynnig hunanwerthusiad cadarn o ba mor dda y mae'n perfformio a'r hyn y bydd yn ei newid yn sgîl hynny.

91 Nid yw'r Cyngor wedi llunio crynodeb ar wahân, ond efallai na fydd angen iddo wneud hynny gan fod y prif adroddiad yn gymharol fyr. Ni roddwyd llawer o gyhoeddusrwydd i'r adroddiad ac nid oes cyfeiriadau clir at y dogfennau ar wefan y Cyngor.

92 Penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliant; fodd bynnag, nid yw wedi cymharu ei berfformiad ag awdurdodau gwella eraill yng Nghymru a chyrff cyhoeddus eraill fel yr amlinellir yn adran 15 (2)b(ii) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

93 Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; yn benodol o ran:

- sicrhau y gellir dod o hyd i'r adroddiad yn haws (canllawiau Llywodraeth Cymru Rhan 1 - Paragraff 6.9);
- sicrhau bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen (canllawiau Llywodraeth Cymru Rhan 1 - Paragraff 6.9);
- sicrhau bod cymunedau a dinasyddion yn ymwybodol o'r asesiad perfformiad (canllawiau Llywodraeth Cymru Rhan 1 - Paragraff 6.14); a
- mynd ati i geisio adborth a sylwadau gan ddinasyddion a chymunedau (canllawiau Llywodraeth Cymru Rhan 1 - Paragraff 6.14).

94 Nodwyd y canlynol gan AGGCC yn ei Adolygiad a'i Werthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad y Cyngor ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2010-11:

- Nid oedd wedi gallu nodi nifer yr adolygiadau o blant mewn angen a gwblhawyd yn ystod 2009-10 gan nad ydynt yn cael eu cofnodi'n electronig, er i archwiliad â llaw gael ei gynnal ar gyfer 2010-11.
- Ni luniwyd fframwaith sicrwydd ansawdd cyffredinol ar gyfer oedolion wrth i'r fframwaith cyfredol gael ei adolygu mewn ffrwd waith ar y cyd ar gyfer rheoli perfformiad, gyda'r nod o'i gyflwyno ym meysydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae AGGCC yn nodi y bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod mesurau digonol ar waith i gefnogi ei fusnes yn y cyfamser'.

95 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn erbyn pob un o'r meysydd a awgrymwyd gennym ar gyfer gwelliant, a nodir crynodeb o gynnydd yn erbyn pob cynnig gwella yn Atodiad 5. At hynny, mae'r Cyngor wedi croesawu ein sylwadau ac ymateb yn dda i'r her allanol hon.

96 Mae Gwerthusiad Blynyddol diweddar AGGCC hefyd yn nodi sut mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu camau ac argymhellion o adolygiadau ac arolygiadau blaenorol. Ar y cyfan, mae cynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r camau a'r argymhellion a nodwyd yn adroddiadau AGGCC.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru.  Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'.  Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.  Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.  Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.  Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).  Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Geredigion a Chyngor Sir Ceredigion

## Y Cyngor

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwario tua £199 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,550 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £23 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2010-11, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yng Ngheredigion oedd £1,097.25 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.22 y cant i £1,132.55 y flwyddyn ar gyfer 2011-12; mae 61.5 y cant o'r anheddau yng Ngheredigion ym mandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 42 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- Aelodau Annibynnol (12), Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (9), Y Blaid Lafur (1): Clymblaid
- 20 o Blaid Cymru

Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion yw Miss E M Bronwen Morgan:

- Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol: Mr Eifion Evans
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol: Mr Parry Davies
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai: Mr Bryan Thomas
- Cyfarwyddwr Cyllid: Mr W Gwyn Jones
- Cyfarwyddwr Priffyrdd, Eiddo a Gwaith: Mr Huw T Morgan

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Geredigion a Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yw:

- Elin Jones – Plaid Cymru (Etholaeth)
- Rebecca Evans - Y Blaid Lafur (Rhanbarthol)
- Simon Thomas – Plaid Cymru (Rhanbarthol)
- Joyce Watson – Y Blaid Lafur (Rhanbarthol)
- William Powell – Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Rhanbarthol)

Aelod Seneddol Ceredigion yw:

- Mark Williams – Y Democratiaid Rhyddfrydol

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.ceredigion.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ceredigion

Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd hefyd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac, felly, mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Cyngor Sir Ceredigion â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau

1 Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

3 Ar 30 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd nifer o faterion a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 26 Medi 2011, ac roedd y pwysicaf o'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- ailddosbarthu costau gwerth £1,165,000 i wahaniaethu rhwng elfen log y Cynllun Menter Cyllid Preifat a'r gost i Wasanaethau Plant ac Addysg er mwyn cydymffurfio â chanllawiau IFRIC 12. Llunio barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- cydnabod rhwymedigaeth gwerth £802,000 mewn perthynas â chyllid sy'n gysylltiedig ag adeiladau ar brydles ar y fantolen;
- ailddosbarthu £251,000 o ddarpariaethau i groniadau;

- gwahaniaeth nas cysonwyd rhwng y ffigur Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel y nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a’r gwahaniaeth mewn Gwerth Net ar y Fantolen. Mae hyn wedi’i ddosbarthu o dan ‘enillion a cholledion eraill’. Argymhellwyd y dylai’r Cyngor sicrhau bod cysoniadau o’r fath yn cael eu datrys cyn gynted ag y cânt eu nodi.

4 O 2010-11, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Gosododd y safonau newydd hyn feichiau ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol hyn, paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol.

5 Mae fy adolygiad o drefniadau’r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o’r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau’r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y mater canlynol:

- hyd yma, nid yw’r Cyngor wedi llwyr integreiddio ei gynllun ariannol tymor canolig â’i amcanion strategol. Mae’r cynllun cyfredol yn cael ei ailddrafftio i sicrhau ei fod yn gliriach ac yn edrych tuag allan i ddangos cysylltiadau cliriach â chyflawniadau gwirioneddol o ran y gwasanaethau a ddarperir. Byddaf yn crynhoi cynnydd y Cyngor yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol i’w gyhoeddi ym mis Ionawr 2012.

6 Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon wedi’i gwblhau ar 30 Medi 2011.

7 Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010/11 fod yn unol â’r swm a nodir yn yr Amlinelliad o’r Archwiliad Blynyddol.

**John Golding, Grant Thornton UK LLP**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

9 Tachwedd 2011

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion

## Amcanion gwella Cyngor Sir Ceredigion

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Mae Amcanion Cynllun Gwella Ceredigion ar gyfer 2010-11 yn nodi pump Amcan Gwella i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn honno. Ar gyfer 2011-12 mae'r Cyngor wedi cadw'r amcanion hyn ac ychwanegu chweched amcan i'w gyflawni eleni. Mae amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer y llynedd ac eleni fel a ganlyn.

| | Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 |
|---|---|
| **1** | Trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol i ddinasyddion. |
| **2** | Adfywio Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol. |
| **3** | Datblygu addysg yng Ngheredigion. |
| **4** | Mesurau i ddiogelu'r amgylchedd a darparu amgylchedd cynaliadwy. |
| **5** | Gwella'r ffyrdd rydym yn diogelu'r bobl sy'n agored i niwed yn ein cymuned. |

| | Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 |
|---|---|
| **1** | Trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol i ddinasyddion. |
| **2** | Gwella cyfleoedd dysgu i bob un o'n dysgwyr. |
| **3** | Darparu amgylchedd diogel o safon uchel. |
| **4** | Gwella'r ffordd rydym yn diogelu'r bobl sy'n agored i niwed yn ein cymuned. |
| **5** | Hyrwyddo a datblygu Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol. |
| **6** | Hyrwyddo a datblygu adfywiad economaidd ym mhob rhan o'r sir. |

Gellir dod o hyd i Amcanion Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 ar wefan y Cyngor yn http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=15057

## Hunanasesiad o berfformiad Cyngor Sir Ceredigion

Cyhoeddwyd hunanasesad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2010-11 erbyn 31 Hydref 2011 a gellir dod o hyd iddo yn ei Gynllun Gwella - Perfformiad ar gyfer 2010-11 ar wefan y Cyngor yn http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=15694

# Atodiad 5
# Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithred Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| **O Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Swyddfa Archwilio Cymru 2010** | | |
| Dylai'r Cyngor lunio cynllun strategol ar gyfer newid a chytuno arno gan nodi sut mae'n bwriadu sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa i gefnogi gwelliannau yn y dyfodol gydag adnoddau mwyfwy cyfyngedig. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch sut y bydd y Cyngor yn:<br>• Atgyfnerthu ei drefniadau arwain, pennu cyfeiriad, llywodraethu a chraffu corfforaethol er mwyn sicrhau y gall wneud y penderfyniadau angenrheidiol. | Rhaglen drawsnewid wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi. Mae trefniadau llywodraethu a chraffu yn cael eu hadolygu fel rhan o gynllun gweithredu cyemradwy. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar Weledigaeth ac Amcanion Strategol sy'n nodi dull gweithredu'r Cyngor, ac mae cyfarwyddwyr arweiniol yn bwrw ymlaen â gwaith mewn meysydd allweddol, er enghraifft, adeiladu strwythur newydd ar gyfer uwch reolwyr, diweddaru cyfansoddiad y Cyngor, a datblygu rhaglenni gwaith a thrafodaethau sy'n ymwneud â niferoedd ar y pwyllgor craffu. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd o ran y rhaglen drawsnewid a chanolbwyntio ar effaith (canlyniadau) y rhaglen, a sut mae'r Cyngor yn mesur, yn monitro ac yn gwerthuso p'un a yw'r canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni, yn ein hasesiadau yn y dyfodol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithred Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| **O Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Swyddfa Archwilio Cymru 2010** | | |
| • Pennu cyfeiriad clir drwy nodi blaenoriaethau, amcanion a chanlyniadau mesuradwy allweddol mewn perthynas â'i holl amcanion a chynlluniau strategol gan ddangos sut y bydd darpariaeth ariannol briodol ac adnoddau digonol ar gael i gefnogi ei weithgareddau i gyflawni'r canlyniadau hynny.<br>• Egluro ei strategaeth gorfforaethol ar gyfer datblygu gwasanaethau a rennir a dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau sydd â chysylltiad clir â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br>• Parhau i ddatblygu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac atgyfnerthu ei ddull strategol o reoli adnoddau, gan sicrhau bod adnoddau ynghlwm wrth flaenoriaethau a llywio dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau. | Rhan o raglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi - mae datblygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn broses barhaus, a chymeradwywyd y cynllun diweddaraf gan y Cabinet ym mis Hydref 2011. Mae'r cynllun wedi'i ddiwygio ac mae'n cynnwys data ychwanegol yn sgîl argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, er enghraifft, asesu risg, demograffeg, materion sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu, materion a datblygiadau sy'n ymwneud â gwasanaethau, safonau gwasanaethau a chydraddoldeb. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |
| Adolygu'r ffordd y mae'n rheoli pobl, eu perfformiad a'u sgiliau, er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau strategol mewn modd effeithlon. | Rhan o raglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi - mae'r Cyngor wedi llunio cynllun ar gyfer y gweithlu adnoddau dynol (Awst 2011) sy'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd, ac mae gwelliannau eisoes yn cael eu cyflawni. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithred Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| **O Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Swyddfa Archwilio Cymru 2010** | | |
| Adeiladu ar ei adolygiadau diweddar er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd ei fframwaith partneriaeth. | Rhan o raglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi - mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran ymateb i agenda Llywodraeth Cymru ar gydweithredu ac mae'n gwneud cynnydd ar lefel Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ogystal ag ystyried cyfleoedd i gydweithio â chynghorau cyfagos. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |
| Parhau i atgyfnerthu ei ddefnydd o TGCh, a gwella'r broses o reoli perfformiad, risg a phrosiectau ar lefel strategol. | Rhan o rhaglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi - yn ddiweddar cyflwynodd y Cyngor ei gynnig i atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad gan ddefnyddio model rhannol. Mae'r gofrestr risg wedi'i hadolygu ac mae'r camau sydd wedi'u cymryd i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu TGCh yn llywio newid. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n rhaglen fonitro a thrawsnewid ac fel rhan o'n hadolygiadau thematig sy'n ymwneud â Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithred Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| **O Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2010** | | |
| Bydd angen i'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• Nodi'r hyn y mae am ei gyflawni o'i raglen drawsnewid yn glir a sut y bydd yn rheoli, yn cefnogi ac yn cyflawni ei raglen drawsnewid ac yn talu amdani. | Rhan o rhaglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi. Mae amcanion y rhaglen wedi'u pennu ac mae cyfrifoldeb ac atebolrwydd swyddogion yn glir. Mae fframwaith wedi'i sefydlu ac mae cynnydd yn cael ei wneud. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |
| • Cyhoeddi amcanion gwella yn gynharach y flwyddyn nesaf. | Cynllun Gwella'r Cyngor - Cyhoeddwyd Amcanion yn llwyddiannus ym mis Mai 2011. | Dim camau pellach. |
| • Ystyried y wybodaeth sydd ar gael eisoes ar gyfer pob amcan gwella i gadarnhau'r sefyllfa bresennol, a nodi'r bylchau sydd angen eu llenwi. | Bydd y paratoadau ar gyfer Cynllun Gwella 2012-13 yn cysoni amcanion strategol y gwaith o drawsnewid ag Amcanion Gwella. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r Cynluln Gwella - Amcanion 2012-13 yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau. |
| • Monitro cynnydd a dangos y canlyniadau yn glir ar gyfer trigolion a dinasyddion lleol. | Yn gysylltiedig â rhaglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi. Mae'r Cyngor yn cyflawni hyfforddiant ar atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau (RBA) i wella'r ffordd y mae'n cynllunio, yn monitro ac yn casglu tystiolaeth i gefnogi cynnydd yn erbyn canlyniadau. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu ymgysylltu mwy â dinasyddion drwy'r panel dinasyddion. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithred Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| **O Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2010** | | |
| • Sicrhau cysylltiadau clir rhwng yr Amcanion Gwella a chynlluniau eraill y Cyngor. | Rhan o rhaglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi. Mae'r Cyngor yn bwriadu cysoni ei amcanion strategol a'i amcanion gwella a chysylltu'r rhain â fframwaith mwy cadarn ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad. Caiff y broses hon ei hymestyn er mwyn datblygu un cynllun integredig ar lefel Bwrdd Gwasanaethau Lleol. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |
| • Defnyddio mwy na dim ond y mesurau sydd ganddo ar hyn o bryd yn Amcanion y Cynllun Gwella er mwyn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad i'r cyhoedd. | Yn gysylltiedig â rhaglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi. Mae'r Cyngor yn cyflawni hyfforddiant RBA i wella'r ffordd y mae'n cynllunio, yn monitro ac yn casglu tystiolaeth i gefnogi cynnydd yn erbyn canlyniadau. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i lunio darlun mwy cytbwys o berfformiad yn y dyfodol. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r Cynluln Gwella - Amcanion 2012-13 yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau a bydd yn parghau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithred Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| **O Lythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2011** | | |
| Er mwyn cefnogi'r gwaith o lywio newid diwylliannol, dylid adolygu rolau o fewn y Cabinet drwy asesu a yw trefniadau portffolio sydd wedi'u halinio â chyfarwyddiaethau yn cefnogi newid neu'n debygol o'i rwystro. | Mae trefniadau llwyodraethu a chraffu'n cael eu hadolygu ac mae'r Arweinydd yn parhau i gyfrannu at y gwaith o asesu trefniadau portffolio a bu'n rhan allweddol o'r tîm sy'n edrych ar strwythurau ac aliniad gwasanaethau. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |
| Dylid adolygu trefniadaeth y swyddogaeth Graffu gyda'r nod o: leihau nifer y Pwyllgorau; monitro cyfeiriad, cynnydd ac effaith y rhaglen drawsnewid a chraffu arnynt; a sefydlu dull o ymdrin â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd drawsbynciol. Yn ei gyfarfod ar 28 Gorffennaf 2011 penderfynodd y Pwyllgor Cydgysylltu Trosolwg a Chraffu y byddai'n craffu ar waith y Bwrdd Trawsnewid ac Effeithlonrwydd. | Mae trefniadau llywodraethu a chraffu'n cael eu hadolygu, ac mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad Cymru gyfan o drefniadau caffael ac wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi ei ddull gweithredu mewn perthynas â strwythurau. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |
| Dylai'r data a'r wybodaeth gael eu dilysu gan y swyddogion priodol a dylai Cyfarwyddwyr Corfforaethol fod yn fodlon bod gweithdrefnau data a chymeradwyo dibynadwy ar waith cyn eu cyflwyno i gydweithwyr eraill. | Yn gysylltiedig â rhaglen Drawsnewid y Cyngor sydd wedi'i sefydlu ac yn mynd rhagddi. Cafodd y data a gyhoeddwyd yng Nghynllun Gwella - Perfformiad 2010-11 ei ddilysu gan y Grŵp Swyddogion Rheoli Perfformiad Corfforaethol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Bydd y trefniadau hyn yn parhau mewn perthynas ag amcanion gwella a chyflwyno adroddiadau yn y dyfodol. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu adroddiadau ar berfformiad a'r broses rheoli perfformiad yn y dyfodol fel rhan o'r asesiad gwella a byddwn yn parghau i fonitro cynnydd fel rhan o'n gwaith o fonitro'r rhaglen drawsnewid. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk